



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynnydd yn nifer y tai rhent a fforddiadwy sydd ar gael – **Cyngor Sir Caerfyrddin**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1550A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Gaerfyrddin yn rhan o waith a wnaed/a gaiff ei wneud yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a thrydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r tîm a wnaeth y gwaith hwn yn cynnwys Tim Buckle, Alison Lewis a Sara Leahy dan gyfarwyddyd Huw Rees.

Cynnwys

Mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad Manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen ei wneud i helpu i ddiwallu'r angen tymor byr a hir am dai fforddiadwy 6

Mae'r Cyngor wedi nodi amryw o fuddion ataliol y mae'n dymuno eu cyflawni trwy ei raglen tai fforddiadwy, ond nid yw ei gynlluniau yn nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni'r rhain 8

Mae'r Cyngor yn gwneud cysylltiadau rhwng cyflawni'r cam hwn a'i amcanion llesiant eraill ond ceir cyfleoedd i ystyried sut y mae'n perthyn i'r nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion sefydliadau eraill 9

Mae'r Cyngor yn defnyddio dull cydweithredol o gyflawni ei raglen tai fforddiadwy 10

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â chymunedau ar ei waith yn ymwneud â thai ond ceir cyfleoedd i gryfhau ei ddull o ymgysylltu 11

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 13

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 14

Adroddiad cryno

Crynodeb

Pam y cynhaliwyd yr Archwiliad

- 1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gofyniad statudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) i archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:
 - a. bennu eu hamcanion llesiant, a
 - b. chymryd camau i'w cyflawni.
- 2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '...sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.
- 3 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf blwyddyn cyn ethol pob Cynulliad. Caiff yr adroddiad cyntaf o'r fath ei gyhoeddi yn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.
- 4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws 44 o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf er mwyn llywio'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.
- 5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar waith maes a wnaed yn ystod y cyfnod o fis Gorffennaf 2019 hyd fis Medi 2019.
- 6 Mae'r adroddiad yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o'r 'cynnydd yn nifer y tai rhent a fforddiadwy sydd ar gael', cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.
- 7 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

Yr hyn a archwiliwyd

- 8 Fe wnaethom archwilio i ba raddau mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd y camau canlynol:
 - cynllunio i ddarparu mwy o dai fforddiadwy trwy adeiladu tai Cyngor newydd yn uniongyrchol trwy'r Cyfrif Refeniw Tai; a
 - datblygu amrywiaeth ehangach o dai trwy'r Cwmni Tai a sefydlwyd yn ddiweddar.
- 9 Mae cynllun diweddaraf y Cyngor ar gyfer tai yn nodi sut y mae'n bwriadu darparu 900 o dai Cyngor newydd (yn y cyfnod 2019-2029) trwy adeiladu eiddo newydd. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Cwmni Tai Lleol o'r enw Cartrefi Croeso i'w helpu i ddarparu tai ychwanegol. Mae'r cwmni hwn yn eiddo i'r Cyngor yn gyfan gwbl.
- 10 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion'¹.

Y Pum Ffordd o Weithio

Y Tymor Hir

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.

Atal

Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Integredig

Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Cydweithredol

Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl â buddiant mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei wasanaethu.

- 11 Canfu ein harchwiliad: Mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol.

¹ **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru, 2015

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

Mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen ei wneud i helpu i ddiwallu'r angen tymor byr a hir am dai fforddiadwy

Yr hyn y chwiliwyd amdani

- 12 Chwiliwyd am dystiolaeth o:
- ddealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
 - cynllunio dros gyfnod priodol o amser;
 - adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau buddion hirdymor; a
 - threfniadau monitro ac adolygu priodol.
- 13 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' a nodwyd a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.²

Yr hyn a ganfuwyd

- 14 Nodwyd y cryfderau canlynol:
- mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried yr angen hirdymor am dai yn y sir ers sawl blwyddyn. Er mwyn cynnal ei stoc dai, roedd yn un o'r cynghorau cyntaf i atal yr hawl i brynu. Fe wnaeth wella'i stoc i safon uwchlaw'r hyn sy'n ofynnol yn ôl Safon Ansawdd Tai Cymru.
 - mae'r Cyngor, mewn cydweithrediad â chynghorau cyfagos, wedi cynnal Asesiad cynhwysfawr o'r Farchnad Dai ac mae'n defnyddio hwn i gynllunio ar gyfer yr angen am dai yn y dyfodol.
 - mae'r Cyngor wedi defnyddio ymchwil o nifer o ffynonellau i gefnogi ei ragamcanion asesu yn y dyfodol, gan gynnwys cyfathrebu ag adrannau eraill ynghylch darpariaeth tai arbenigol. Mae'r adran dai wedi defnyddio'r ymchwil y mae wedi'i gynnal ynghylch yr angen am dai i helpu i lywio polisïau strategol allweddol eraill gan gynnwys y Strategaeth Adfywio a'r Cynllun Datblygu Lleol.

² Gweler Atodiad 1

- wrth ddylunio'i dai newydd, mae'r Cyngor yn defnyddio rhagolwg hirdymor o'r math o dai y mae'n ceisio'u darparu, gan gynnwys buddsoddi mewn tai eco a 'thai oes'. Mae'r Cyngor yn cydbwysu costau ychwanegol tymor byr sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn technoleg arloesol ar gyfer tai eco â'r buddion amgylcheddol hirdymor.
- mae'r Adran Dai hefyd wedi bod yn rhan fawr o adolygiad diweddar y Cyngor o broblemau sydd o flaen cymunedau gwledig trwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Materion Gwledig sy'n ystyried cynaliadwyedd hirdymor cymunedau gwledig.
- mae'r Cyngor wedi nodi'r cyllid sydd ei angen i gyflawni ei obeithion tymor byr a hir o ran tai. Mae ymrwymiad parhaus y Cyngor i fuddsoddi yn ei stoc dai bresennol trwy Safonau Tai Sir Gaerfyrddin gwerth £415 miliwn dros y 30 mlynedd nesaf. Mae'r Cyngor yn buddsoddi dros £60 miliwn hefyd yn ei Gynllun Cyflawni Tai Fforddiadwy (2016-2021). Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd y Cyngor yn darparu 1000 yn fwy o dai fforddiadwy dros gyfnod o bum mlynedd. Mae darpariaeth tai fforddiadwy hyd yn hyn wedi'i gyflawni trwy ddefnyddio amrywiaeth o atebion, gan gynnwys: prynu tai o'r sector preifat, cefnogi landlordiaid yn y sector rhentu preifat trwy ein Hasiantaeth Gosodiadau Cymdeithasol arloesol a defnyddio tai gwag o'r newydd. Mae'r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar gyflawniad ei gynllun tai. Yn y tair blynedd gyntaf, mae'r Cyngor wedi darparu 700 o dai, felly mae ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged o 1000 o dai erbyn 2021.
- mae 'Adeiladu Mwy o Gartrefi Cyngor - Ein huchelgais a chynllun gweithredu (Mai 2019)' y Cyngor yn nodi sut y mae'n bwriadu darparu 900 o dai Cyngor newydd (yn y cyfnod 2019-2029) trwy adeiladu eiddo newydd. Rhaglen buddsoddi 10 mlynedd yw hon gwerth bron i £150 miliwn. Nodwyd £53 miliwn i'w wario ar ddarparu 300 o gartrefi newydd yn y 3 blynedd cyntaf.
- gall y Cwmni Tai Lleol (Cartrefi Croeso) gael gafael ar ffynonellau cyllid ychwanegol gan gynnwys benthyca darbodus trwy'r Cyngor a chyllid preifat. Bydd yr hyblygrwydd ariannol ychwanegol hwn yn galluogi'r cwmni i ddarparu amrywiaeth o opsiynau tai, gan gynnwys datblygiadau deiliadaeth cymysg a fydd yn cynnwys perchnogaeth ar y cyd, gwerthu ar y farchnad agored a thai rhent cymdeithasol.

15 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- mae gan y Cyngor Gynllun Cyflenwi Tai Fforddiadwy 2016-2022 ar hyn o bryd a Rhaglen Buddsoddi Adeiladau Newydd 10 mlynedd. Ceir cyfle i ystyried a yw'r cynlluniau hyn yn cyd-fynd yn ddigonol.
- mae diben a phwyslais gwaith y cwmni tai sydd newydd ei sefydlu, Cartrefi Croeso, yn esblygu ac wrth i hyn sefydlogi, mae angen i'r Cyngor adlewyrchu swyddogaeth y cwmni yn ei gynlluniau cyflenwi.
- nid yw mesurau perfformiad y Cyngor yn adlewyrchu gobeithion ehangach ei raglenni tai ar hyn o bryd, y tu hwnt i ddarparu unedau tai ychwanegol.

Mae'r Cyngor wedi nodi amryw o fuddion ataliol y mae'n dymuno eu cyflawni trwy ei raglen tai fforddiadwy, ond nid yw ei gynlluniau yn nodi'n glir sut y bydd yn cyflawni'r rhain

Yr hyn y chwiliwyd amdani

- 16 Chwiliwyd am dystiolaeth o:
- ddealltwriaeth drylwyr o natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w atal rhag codi neu waethygu;
 - adnoddau a ddyranwyd i sicrhau y cyflawnir buddion ataliol; a
 - threfniadau monitro ac adolygu effeithiolrwydd y cam wrth atal problemau rhag codi neu waethygu.
- 17 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.³

Yr hyn a ganfuwyd

- 18 Nodwyd y cryfderau canlynol:
- roedd y Cyngor yn gallu nodi nifer o agweddau y mae'n ceisio'u hatal, gan gynnwys:
 - dirywiad economaidd neu bobl yn symud allan o'r sir i gael cyflogaeth;
 - dirywiad ardaloedd gwledig;
 - dirywiad y Gymraeg;
 - salwch;
 - effeithiau andwyol ar yr amgylchedd;
 - tlodi tanwydd; a
 - digartrefedd.
 - mae'r Cyngor wedi ymrwymo adnoddau i'r agenda atal trwy fuddsoddi mewn technolegau sy'n cynyddu costau cynhyrchu yn y tymor byr ond â'r potensial i arbed arian yn y tymor hir.
 - mae'r Cyngor wedi cymryd camau i ddeall y materion hyn, gan gynnwys:
 - lechyd – comisiynodd y Cyngor Astudiaeth o Effaith ar Iechyd a ddangosodd effaith gadarnhaol tai o safon ar iechyd trigolion.
 - cymunedau gwledig – mae'r Cyngor trwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Materion Gwledig wedi cynnal astudiaeth i nodi'r heriau allweddol i gymunedau gwledig a datblygu cynllun gweithredu (lle mae tai a chynllunio yn rhan o'r ateb).

³ Gweler Atodiad 1

- datblygiad economaidd – mae tai yn rhan allweddol o agenda adfywio y Cyngor.

19 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- gallai'r Cyngor nodi'n gliriach yn ei gynlluniau tai yr hyn y mae'n ceisio'i atal trwy'r 'cam' hwn a sut y bydd yn cyflawni hyn.

Mae'r Cyngor yn gwneud cysylltiadau rhwng cyflawni'r cam hwn a'i amcanion llesiant eraill ond ceir cyfleoedd i ystyried sut y mae'n perthyn i'r nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion sefydliadau eraill

Yr hyn y chwiliwyd amdani

20 Chwiliwyd am dystiolaeth o ystyriaeth o:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

21 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.⁴

Yr hyn a ganfuwyd

22 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi dechrau ystyried sut y mae ei ddull o ddarparu mwy o dai fforddiadwy yn cysylltu â'r saith nod llesiant cenedlaethol.
- mae cynlluniau'r Cyngor ar gyfer tai fforddiadwy yn dangos integreiddiad â chynlluniau allweddol eraill y Cyngor gan gynnwys ei amcan llesiant yn ymwneud ag adfywio.
- mae'r Cyngor wedi cymryd camau i integreiddio blaenoriaethau ehangach yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i'r gwaith yn ymwneud â darparu cartrefi newydd arbenigol ychwanegol.
- mae dull yr Adran Dai o ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy wedi'i integreiddio i strategaeth datblygiad economaidd ehangach y Cyngor trwy ei arferion caffael, sy'n cefnogi cadwyn gyflenwi leol ac yn defnyddio prentisiaethau.

⁴ Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor hefyd yn integreiddio ei ddyhead ar gyfer mwy o dai fforddiadwy i'w Bolisi Caffael a Gwaredu Eiddo. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn ystyried agendâu ehangach wrth werthu tir ac mae wedi gwerthu tir islaw gwerth y farchnad er mwyn sicrhau mwy o dai fforddiadwy mewn ardal lle mae angen mawr.

23 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- gallai'r Cyngor ddiffinio'n gliriach sut y mae'r gwaith y mae'n ei wneud i ddarparu mwy o dai fforddiadwy yn cysylltu â'r saith nod llesiant cenedlaethol, amcanion llesiant sefydliadau eraill, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac amcanion llesiant eraill y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn defnyddio dull cydweithredol o gyflawni ei raglen tai fforddiadwy

Yr hyn y chwiliwyd amdani

24 Chwiliwyd am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithredu'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithredu yn ei helpu neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

25 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithredu' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.⁵

Yr hyn a ganfuwyd

26 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae gan y Cyngor grwpiau mewnol sy'n helpu i sicrhau cydweithredu mewnol effeithiol i gyflawni'r cam hwn ac agendâu polisi allweddol cysylltiedig. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys y Tîm Cyflenwi Adfywio a'r Grŵp Llywio Tai Fforddiadwy. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cynrychiolaeth berthnasol o wahanol adrannau y Cyngor.
- ceir cydweithredu cadarnhaol rhwng y gwasanaethau tai a'r gwasanaethau cymdeithasol, wrth i'r ddwy adran weithio'n agos ar ddatblygu amrywiaeth o opsiynau yn rhan o waith tai fforddiadwy ar gyfer cartrefi i bobl ag anghenion arbenigol.

⁵ Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn cydweithredu â llawer o wahanol sefydliadau, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd a phrifysgolion trwy'r Astudiaeth o Effaith ar Iechyd, ac â'r Dinas-Ranbarth Bae Abertawe ehangach wrth ystyried technolegau newydd ar gyfer tai eco.
- mae'r Cyngor yn cydweithredu hefyd â darparwyr tai cymdeithasol eraill a'r sector preifat i'w helpu i gyflawni eu cynlluniau uchelgeisiol i gynyddu nifer y tai rhent a fforddiadwy sydd ar gael.
- yn ward Tyisha, Llanelli, mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r heddlu, y gwasanaeth iechyd a sefydliadau'r trydydd sector i ystyried atebion ar gyfer yr ardal hon a buddsoddiad ynddi.

27 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella'r cydweithredu â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac iechyd ond mae'n cydnabod bod cyfleoedd i atgyfnerthu'r trefniadau cydweithredu hyn.

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â chymunedau ar ei waith yn ymwneud â thai ond ceir cyfleoedd i gryfhau ei ddull o ymgysylltu

Yr hyn y chwiliwyd amdani

28 Chwiliwyd am dystiolaeth bod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen eu cynnwys wrth gynllunio a chyflawni'r cam;
- cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn modd effeithiol wrth gynllunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau'r ymgysylltu i lunio datblygiad a chyflawniad y cam; a
- cheisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o ymgysylltu.

29 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cymryd rhan' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd yn rhan o'r archwiliad hwn.⁶

Yr hyn a ganfuwyd

30 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â chymunedau ar eu gwaith yn ymwneud â thai, gan gynnwys:

⁶ Gweler Atodiad 1

- cynnal Fforwm Ymgynghori â Thenantiaid a strategaeth ymgysylltu â thenantiaid;
 - gwaith ymgynghori wyneb yn wyneb yn ward Tyisha, Llanelli i ddatblygu uwchgynllun cymunedol wedi'i seilio ar adborth a blaenoriaethau a nodwyd gan y gymuned;
 - arolygon y cyhoedd yn rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Materion Gwledig; a
 - defnyddio gwaith ymgysylltu a wnaed gan gydweithwyr yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol i gasglu barn pobl y mae angen tai arbenigol arnynt.
- Mae'r Cyngor wedi gwrandao ac ymateb i'r ymgynghoriad, er enghraifft newidiodd y Cyngor faint eiddo ar un safle ar sail adborth a gafwyd.
 - Mae'r Cwmni Tai yn cynnwys y Cyngor Cymuned yn Llansteffan ar hyn o bryd ar gynigion a threfniadau i gyfyngu ar farchnata tai newydd i'r rhai hynny sy'n byw yn yr ardal neu â chysylltiadau agos â'r ardal.

31 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Er bod y Cyngor wedi cymryd camau i nodi ac ymgysylltu â grwpiau yn y gymuned i lywio'u gwaith tai, mae rhagor o gamau y gallai'r Cyngor eu cymryd i wella'r dull o gynnwys eraill, gan gynnwys:
 - sicrhau bod gwaith ymgysylltu yn cynnwys amrywiaeth lawn o'r gymuned;
 - meddu ar ddull clir o gynnwys darpar ddefnyddwyr gwasanaethau, nid tenantiaid tai presennol yn unig;
 - cymryd camau ymgysylltu ar bob cam o'r broses, gan gynnwys dylunio, datblygu, cyflawni ac adolygu;
 - ymgysylltiad parhaus, er enghraifft trwy geisio barn defnyddwyr gwasanaethau ar ôl iddynt fyw yn yr eiddo i lywio cynlluniau'r dyfodol; ac
 - adolygu'n rheolaidd ei drefniadau ymgynghori ac ymgysylltu i wella'r gwaith ymgysylltu yn y dyfodol.

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

- 32 Ar ôl gorffen ein gwaith maes, fe wnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Medi 2019 ac roedd swyddogion o'r Cyngor a chynrychiolydd o'r cwmni tai newydd (Cartrefi Croeso) yn bresennol. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i'r trafodaethau yn y gweithdy, a rhagor o fyfyrion ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau canlynol.
- 33 Bydd y Cyngor yn adolygu ac yn cyfuno cynlluniau presennol i ddatblygu Cynllun Cyflenwi Tai Fforddiadwy newydd, a hynny erbyn mis Ebrill 2020, a fydd yn:
- nodi sut y mae'r Cyngor yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a sut y cyflawnir y rhain wrth gyflawni ei strategaeth tai fforddiadwy;
 - cynnwys fframwaith allbynnau, canlyniadau ac effaith newydd.
- 34 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth weithredu'r camau hyn ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein canfyddiadau.

Atodiad 1

Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u nodi ac y byddwn yn eu defnyddio er mwyn helpu i lywio ein hasesiadau o'r graddau y mae corff yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i gyrraedd casgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' o i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 1: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd hirdymor o weithio yn llawn?

- Ceir dealltwriaeth glir o ystyr 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf.
- Mae wedi cynllunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at ei weledigaeth hirdymor.
- Mae wedi cynllunio'r cam i gyflawni buddion tymor byr a chanolig, sydd wedi'u cydbwysu â'r effaith yn y tymor hir (o fewn cyd-destun y prosiect).
- Mae wedi cynllunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o anghenion a phwysau presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau yn y dyfodol.
- O ganlyniad i hyn, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau a'r cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol.
- Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y cyflawnir buddion hirdymor yn ogystal â rhai tymor byr.
- Ceir pwyslais ar gyflwyno canlyniadau, a nodir cerrig milltir/camau datblygu pan gaiff canlyniadau eu cyflawni yn y tymor hir.
- Mae'n agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i gyflawni buddion yn y tymor hirach.
- Mae'n gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn canlyn dulliau wedi'u seilio ar dystiolaeth.

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd ataliol o weithio yn llawn?

- Mae'r corff yn ceisio deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau er mwyn gallu mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau ar draws cenedlaethau.
- Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt y system gyfan, gan adnabod a gwerthfawrogi'r buddion hirdymor y gallant eu cyflwyno i bobl a lleoedd.
- Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau, a gwell defnydd o adnoddau yn y tymor hir, hyd yn oed pan fo cyfyngiad posibl ar y gallu i ddiwallu rhai o'r anghenion tymor byr.
- Ceir trefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac sy'n derbyn gostyngiadau tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau wrth ganlyn y gwelliannau disgwyliedig i'r canlyniadau a'r defnydd o adnoddau.

Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'?

- Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad i gyflawniad y weledigaeth a'r amcanion llesiant.
- Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau'r sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd yn rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn ei waith â chyrrff cyhoeddus eraill.
- Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau ar draws y sefydliad i gyflawni'r uchelgais a'r amcanion.
- Ceir diwylliant agored o rannu gwybodaeth.
- Ceir dealltwriaeth ddatblygedig o sut y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrrff eraill y sector cyhoeddus.
- Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i gyflawni'r cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant ac i leihau'r effeithiau negyddol gymaint â phosibl.
- Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau yn cefnogi hyn, ac ymddygiad hefyd.

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithredu'n effeithiol?

- Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.
- Mae gan y corff ddealltwriaeth o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgareddau cydweithredol.
- Mae gan y corff berthynas gadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r holl bartneriaid.
- Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio cyfrannol, pan fo hynny'n briodol.

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?

- Meddu ar ddealltwriaeth o bwy sydd angen bod yn gysylltiedig a pham.
- Myfyrio ar ba mor dda yw'r ddealltwriaeth o anghenion a heriau y bobl hynny ar hyn o bryd.
- Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gweithio gyda rhanddeiliaid i gynllunio a chyflawni.
- Ystyried barn rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau.
- Sicrhau y cynrychiolir yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid a'u bod yn gallu cymryd rhan.
- Bod â pherthynas aeddfed o ymddiriedaeth â'i randdeiliaid, lle ceir dialog parhaus a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.
- Gofyn am adborth gan randdeiliaid allweddol a defnyddio hyn i helpu i ddysgu a gwella.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru